



**TRAFNIDIAETH
CYMRU
TRANSPORT
FOR WALES**

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
Rhondda Cynon Taf CF37 4TH
029 2167 3434
cyswllt@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
Rhondda Cynon Taf CF37 4TH
029 2167 3434
contact@tfw.wales
tfw.wales

#####

Cyfeirnod: FOI 2021-182

Dyddiad: 19 Ionawr 2021

Annwyl ###,

Diolch i chi am gysylltu â Trafnidiaeth Cymru. Tynnwyd sylw'r Adran Llywodraethu Corfforaethol at eich llythyr dyddiedig 6 Rhagfyr 2020 gan ein Cadeirydd Scott Waddington. Rydw i'n aelod o'r Cynghorydd Llywodraethu Corfforaethol, rydw i'n berchen ar y broses Rhyddid Gwybodaeth o ddydd i ddydd, ac rydw i wedi trin eich ymholiad fel cais Rhyddid Gwybodaeth.

Diolch am roi o'ch amser i ysgrifennu cynnig mor fanwl ar gyfer cwblhau llinell gylchol Caerdydd yn Coryton. Mae'n amlwg eich bod chi'n deall eich ardal leol yn dda. Fel rydych chi'n ei nodi yn eich llythyr, mae'r achosion o blaid ac yn erbyn cwblhau'r llinell gylchol yn Coryton wedi cael eu dadlau dros sawl degawd. Fodd bynnag, gan mai dim ond yn 2016 y daeth Trafnidiaeth Cymru i fodolaeth, nid ydym ni wedi ysgrifennu unrhyw beth ac felly nid oes gennym ni astudiaethau dichonoldeb, cynigion nac adroddiadau ar y mater hwn.

Yn hytrach, hoffwn dynnu eich sylw at y Papur Gwyn ar Drafnidiaeth Caerdydd a gyhoeddwyd gan Gyngor Sir Caerdydd yn 2019, rydym wedi'i atodi gyda'r llythyr hwn. Mae'r cynigion ar gyfer cwblhau'r llinell gylchol yn Coryton wedi'u hamlinellu ar dudalennau 10-13.

Rydym ni hefyd wedi cynnwys y map diweddaraf sy'n amlinellu cwmpas y gwaith trawsnewid ar Linellau Craidd y Cymoedd. Fel y gwelwch o'r map, mae dwy orsaf arall y tu hwnt i Coryton wedi cael eu hawgrymu fel 'opsiynau ehangu' – un yn Ysbyty Felindre ac un arall i wasanaethu fel man parcio a theithio oddi ar yr M4 (a fyddai'n cael ei alw'n Orsaf Longwood Drive). Ar hyn o bryd, dim ond darpariaeth basio sydd wedi cael ei gwneud ar gyfer y ddwy orsaf ychwanegol gan fod y penderfyniad i fwrw ymlaen â'u hadeiladu – ac yn wir unrhyw benderfyniad i fynd ymhellach a chwblhau llinell gylchol Caerdydd – yn gorwedd gyda Chyngor Sir Caerdydd ac yn syrthio y tu allan i gwmpas presennol ein gwaith i drawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd.

Gobeithio bod yr wybodaeth hon yn bodloni eich chwilfrydedd ynglŷn â'r potensial ar gyfer gwaith yn y dyfodol i gwblhau llinell gylchol Caerdydd yn Coryton.

Yn gywir,

###

Cynghorydd Llywodraethu Corfforaethol



**TRAFNIDIAETH
CYMRU
TRANSPORT
FOR WALES**

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
Rhondda Cynon Taf CF37 4TH
029 2167 3434
cyswllt@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
Rhondda Cynon Taf CF37 4TH
029 2167 3434
contact@tfw.wales
tfw.wales



Mae Trafnidiaeth Cymru yn eiddo i
Lywodraeth Cymru
Transport for Wales is owned by the
Welsh Government

Cwmni Cyfyngedig drwy Warrant. Cofrestrwyd yng Nghymru. Rhif Cwmni 09476013. Cyfeiriad Swyddfa Gofrestredig:
3 Llys Cadwyn, Pontypridd, Rhondda Cynon Taf CF37 4TH
A Company Limited by Guarantee. Registered in Wales. Company No. 09476013. Registered Office Address:
3 Llys Cadwyn, Pontypridd, Rhondda Cynon Taf CF37 4TH